O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2289 (Cy. 239)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Betws-y-coed i Westy'r Rhaeadr Ewynnol, Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed 9 Medi 2011

Yn dod i rym 19 Medi 2011

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Caergybi (yr A5) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd a chyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall **(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Medi 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Betws-y-coed i Westy'r Rhaeadr Ewynnol, Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 19 Medi 2011 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn derfynol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd, ym Mwrdeistref Sirol Conwy, sy'n ymestyn o bwynt wrth yr arwydd cyfyngiad cyflymder 30 mya i'r gorllewin o Fetws-y-coed hyd at bwynt 5 metr i'r gorllewin o'r fynedfa i faes parcio Gwesty'r Rhaeadr Ewynnol.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn cyfeirio at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd, na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio, yn y fath fodd ag y bo'n goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd.

6. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dynodi bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y cyfeirir atynt yno yn weithredol.

7. Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 6 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

9 Medi 2011

G R Morgan

G MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.